

Trwy ebost

11/09/17

Cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i BGC Sir Gaerfyrddin

Annwyl Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a swyddogion cymorth Sir Gaerfyrddin,

Diolch i chi am ofyn cyngor gennyf ar sut gallech gymryd camau i gyflawni eich amcanion llesiant drafft, sef:

- Arferion lach: Bod gan bobl ansawdd bywyd da a'u bod yn gwneud dewisiadau da ynghylch eu bywydau a'u hamgylchedd.
- Ymyrraeth gynnar: Bod pobl yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir, pan fo'i angen arnynt.
- Cysylltiadau Cadarn: Pobl, lleoedd a sefydliadau sydd wedi eu cysylltu'n gadarn, sy'n gallu addasu i newid.
- Pobl a lleoedd llewyrchus: Mwyafu'r cyfleoedd i bobl a lleoedd yn ardaloedd trefol a gwledig y sir.

Rydych wedi cytuno hefyd ar themâu cychwynnol i weithredu arnynt, sy'n cynnwys nodi a deall pwyntiau sbardun ym mywydau pobl; ymgysylltu ac ysbrydoli pobl, gan wella eu dealltwriaeth a'u cymhellion; sicrhau perchenogaeth ar y cyd, cyd-greu gwasanaethau; ac ychwanegu gwerth, rhaid i bob cam gweithredu gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ychwanegu gwerth.

Mae fy nhîm o'r farn bod siarad â chi yn rheolaidd a chyfarfod â rhai ohonoch yr wythnos ddiwethaf wedi eu helpu i ddeall sut rydych chi'n cydweithio fel BGC; eich dull o gynllunio llesiant a'ch bwriad i gyflawni'r amcanion a chamu ymlaen mewn ffordd wahanol. Fel y byddant wedi trafod gyda chi, roeddwn i'n awyddus bod fy nghyngor yn ddefnyddiol i chi yn y cyd-destun rydych chi'n gweithio ynddo, felly rwy'n gobeithio bod y cyswllt rheolaidd hwn wedi bod yn ddefnyddiol i chi ac wedi rhoi rhywfaint o arweiniad i chi ar hyd y ffordd.

Roeddwn hefyd am ymateb i'ch asesiad llesiant mewn ffordd sy'n edrych ymlaen, yn hytrach nag edrych yn ôl, gan eich helpu i ystyried sut mae mynd ati i asesu a chynllunio llesiant yn barhaus. Yn ddiweddar, rwyf wedi cyhoeddi '[Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory](#)' sy'n amlgu canfyddiadau allweddol ac argymhellion i BGCau ar y meysydd allweddol lle bydd angen newid er mwyn gwneud gwell penderfyniadau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rwy'n cyfeirio at yr adroddiadau hyn wrth ddarparu cyngor i chi.

Fel y gwyddoch, mae'n rhaid i BGCau, wrth bennu amcanion drafft a chymryd camau i'w cyflawni, ddefnyddio pum dull o weithio i herio'r sefyllfa bresennol a mwyafu eu cyfraniad at bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol. Bwriad fy nghyngor yw eich helpu i ystyried sut gallech wneud hynny'n effeithiol a sut gallech ddangos, trwy eich cynllun llesiant, eich bod wedi defnyddio'r pum dull o weithio i lywio eich camau.

Gan hynny, mae fy nghyngor yn cwmpasu mabwysiadu dulliau gwahanol o weithio a sylwadau penodol ynghylch yr amcanion drafft y byddwch yn canolbwyntio arnynt ar ôl eu nodi yn eich asesiadau, yn ogystal â cheisio eich cysylltu â phobl eraill a all eich helpu o bosibl. Fel yr eglurodd fy nhîm, nid rhoi fy marn ar eich amcanion llesiant na'ch cynllun drafft yw diben y cyngor hwn. Chi, fel BGC ar y cyd, fydd yn penderfynu ar y rheiny ac yn eu perchenogi.

Mabwysiadu dulliau gwahanol o weithio er mwyn cymryd camau i gyflawni eich amcanion drafft

Ar gyfer pob un o'ch amcanion drafft a'r camau rydych chi'n eu pennu, hoffwn ddeall beth mae hyn yn ei olygu yn Sir Gaerfyrddin a sut mae'n wahanol i'r hyn roeddech yn ei wneud o'r blaen. Mae'r cynllun drafft rydych wedi'i rannu â ni yn dechrau egluro pam yr ydych wedi dewis cymryd y cam hwn a byddwn yn eich annog i adeiladu ar hyn, gan wneud yn glir beth gallai'r cam hwn ei olygu i ddyfodol cymunedau. Mae cyflawni uchelgeisiau'r Ddeddf hon yn ymwneud â 'beth' a 'sut' h.y. beth rydych chi'n ei wneud i gyfrannu at ein gweledigaeth ar y cyd o ran y saith nod llesiant cenedlaethol? Mae'r nodau'n cydnabod bod datblygu cynaliadwy yn cysylltu pobl, a'u hansawdd bywyd, â'r amgylchedd rydym yn byw ynddo, yr economi rydym yn gweithio ynddi, y gymdeithas rydym yn ei mwynhau a'r diwyllianau rydym yn eu rhannu, felly beth fyddwch chi'n ei wneud yn wahanol gyda'ch gilydd? A sut byddwch chi'n cymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy er mwyn llywio eich camau gweithredu yn Sir Gaerfyrddin?

I wneud hyn, mae'n bwysig bod BGCau yn dangos yn glir sut defnyddiwyd y pum dull o weithio i herio'r ffordd bresennol o feddwl a ffurfio eich cynllun. Byddwn yn eich cyngori i gryfhau'r elfen hon yn eich drafft a dangos eich ffordd o feddwl yn fwy eglur, a hynny yng nghyd-destun Sir Gaerfyrddin yn hytrach nag yn gyffredinol. Rwy'n gobeithio y bydd y cwestiynau isod yn eich helpu i ddangos eich bod yn herio eich hunain i feddwl yn wahanol. Yn hytrach na bod yn themâu trawsbynciol, mae'r dulliau gweithio yn ymddygiadau i'ch helpu i gyfrannu i'r eithaf at y saith nod llesiant.

Gan hynny, nid mater o 'ddal ati fel arfer' yw pennu amcanion a champau. Yn y gorffennol, rydym wedi amlygu themâu a blaenoriaethau ac ysgrifennu cynlluniau sy'n dangos yr hyn a wnawn beth bynnag. Hyd yn oed yn awr, er gwaetha'r dystiolaeth yn yr asesiadau sy'n dangos amrediad o dueddiadau brawychus, ymddengys nad yw BGCau yn ymgysylltu ond â meysydd diogel, nad ydynt yn ddadleuol. Mae gofyn defnyddio dull sylfaenol wahanol er mwyn addasu eich ffyrdd o weithio ac fel BGC, mae angen i chi ganiatáu amser a lle i chi holi eich hun a fydd y dulliau presennol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn addas yn y dyfodol, ac archwilio'r pwysau a'r tensiynau allweddol wrth gyflawni pob un o'ch amcanion.

Mae eich themâu cychwynnol i weithredu arnynt yn galonogol yn hyn o beth, a byddwn yn eich annog i neilltuo cyfarfodydd neu greu sesiynau BGC i ystyried y rhain a'r pum dull o weithio wrth i chi fynd ati i gynllunio eich camau gweithredu a chyflawni'r cynllun. Mae'n bwysig eich bod yn cael trafodaeth onest ynghylch y tensiynau rhwng materion polisi ac arferion presennol yn eich sefydliadau mewn perthynas â phob amcan. Dylai hynny

wedyn yrru'r drafodaeth ynghylch sut gallwch ddefnyddio dulliau gweithredu newydd gyda'ch gilydd wrth i chi gymryd camau i gyflawni eich amcanion a mwyaflu eich cyfraniad i'r saith nod cenedlaethol.

Byddwn i'n eich cynghori bod angen i chi ddangos sut mae eich BGC wedi ystyried y canlynl mewn perthynas â phob un o'ch amcanion:

- **Y tymor hir:** Beth ydych chi'n ei ddeall am y tueddiadau tymor hir, y cyfleoedd, y risgiau a'r senarios tebygol yng nghyswllt y mater hwn? Beth yw'r rhain ac a ydych wedi archwilio eu heffaith ar eich camau? A oes bylchau ar hyn o bryd yn eich data neu yn eich dealltwriaeth? Pa ragolygon neu wybodaeth am dueddiadau yn y dyfodol sydd eu hangen arnoch er mwyn deall y mater hwn yn well? Pa allu, hyder ac arbenigedd sydd eu hangen arnoch i lenwi'r bylchau mewn gwybodaeth? I lywio'r camau gweithredu a gymerwch, bydd angen i chi fapio'n ddigonol ac ystyried y tueddiadau i'r dyfodol ar gyfer pob un o'ch amcanion. Mae fy swyddfa'n gweithio gydag eraill i feithrin gallu yn y maes hwn ac, fel y gŵyr eich tîm cymorth, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ychwanegu at adnoddau'r adroddiad 'Tueddiadau'r Dyfodol' a dylech fanteisio i'r eithaf ar y rhain a'u cyrchu trwy Objective Connect neu drwy gysylltu â David Thomas. [Mae adroddiad Oxford Martin 'Now for the long-term'](#) yn dangos tueddiadau'r dyfodol ar lefel genedlaethol a byd-eang y bydd angen i ni i gyd ymateb iddynt wrth gyflawni datblygu cynaliadwy.
- **Ataliaeth:** Wrth ystyried y mater hwn, a ydych chi'n deall yr hyn rydych yn ceisio'i atal? Beth yw achosion gwaelodol y mater a phryd fyddai'r adeg orau i ymyrryd? Ydych chi'n eglur ynghylch ai ataliaeth sylfaenol h.y. ceisio atal rhywbeth cyn iddo ddigwydd; ataliaeth eilaidd h.y. atal rhywbeth rhag gwaethygu; neu ataliaeth drydyddol h.y. lleddfu rhywfaint ar effaith sy'n parhau; sydd ei angen? Mae hyn yn gyfystyr â'r gwahaniaeth rhwng annog beicwyr i wisgo helmed (ataliaeth sylfaenol i arbed anafiadau pen); rhoi rhywun yn yr ystum adfer ar ôl iddo gwmpo o'i feic (ataliaeth eilaidd rhag i'r anaf waethygu) a chwmsela ar ôl y ddamwain (ataliaeth drydyddol sy'n gymorth i atal yr anafiadau parhaus rhag gwaethygu).

Nid yw llawer o'r BGCau wedi defnyddio'u hasesiadau i ddeall y sefyllfa bresennol yn llwyr nac i ddeall graddfa a natur yr ymateb sy'n ofynnol. Nid yw'n glir ar hyn o bryd sut y newidir gwasanaethau ac adnoddau i fod yn fwy ataliol yn Sir Gaerfyrddin. Rwy'n sylweddoli na fydd y darlun llawn gennych eto o bosibl, ond rwyf am weld pob BGC yn archwilio sut mae torri cylchoedd a threiddio'n ddyfnach i'r data i weld y negeseuon sydd ymhlyg ynddo er mwyn deall yn well achosion ac effeithiau materion a thueddiadau allweddol a fydd yn llywio eich camau.

- **Cydweithio:** Mae'n bwysig bod y bobl sy'n aelodau o'r BGC yn gallu cynnig yr ystod orau o ymwybyddiaeth, her adeiladol, data a datrysiadau i'r BGC. A yw'r bobl iawn wrth y bwrdd, ar y lefel iawn i wneud penderfyniadau ar y mater hwn? Pwy arall y gallai fod angen i chi gydweithio â nhw er mwyn deall hyn yn well? Fel yr argymhellwyd yn fy adroddiad ynghylch yr Aseidiadau Llesiant, mae cyfle amserol yn awr i chi adolygu'r aelodau a wahoddwyd i ymwneud â'r BGC ac ystyried yr 'wynebaw newydd' y gall fod angen i chi weithio gyda nhw er mwyn cymryd camau i gyflawni'r amcan hwn.



Wrth gyflawni'r camau, sut gallai eich sefydliadau gydweithio? Bydd angen i chi ddangos sut mae eich BGC yn ystyried y camau sydd angen eu cymryd ar y cyd ac ar draws ffiniau sefydliadau er mwyn cyflawni eich amcanion yn effeithiol. Gallai hyn gynnwys cydleoli staff, chwalu strwythurau traddodiadol, trefnu cyfnewid swyddi a secondiadau ac, yn bwysig iawn, crynhoi adnoddau. Byddaf am weld sut rydych wedi ystyried y buddion hyn a pha gamau y byddwch yn eu cymryd er mwyn symud tuag at wireddu'r cydweithio hwn.

- **Integreiddio:** Ar gyfer pob amcan, sut byddwch chi'n symud i ffwrdd o weithredu er mwyn cyflawni amcanion yn unig, a dangos, yn lle hynny, eich bod yn cymryd camau sy'n cyfrannu i'r eithaf at bob un o'r nodau? Yn hytrach nag edrych ar y mater hwn yn yr ystyr draddodiadol a chyffredinol, a ydych chi wedi edrych ar ddiffiniad pob nod er mwyn ehangu eich dealltwriaeth o lesiant yn y maes dan sylw a'r cyfleoedd a allai fodoli i gyflawni'r nodau hyn trwy bob un o'ch amcanion? I ba raddau rydych chi'n deall cyfraniad presennol eich sefydliad at yr amcan hwn? Ac a ydych chi'n deall pa mor wahanol yw'r cyfraniad y bydd angen i chi ei wneud wrth symud ymlaen â'r amcan hwn?

Sut gallwch chi olrhain yr hyn sy'n digwydd mewn manau eraill yn eich sefydliadau, a'r strategaethau a'r cynlluniau ar lefel ranbarthol neu genedlaethol, er mwyn cysylltu ag eraill i gyflawni'r amcan hwn? Mae eich cynllun drafft yn cynnwys cysylltiadau rhwng amcanion llesiant y gwahanol sefydliadau unigol, ond a ydych chi wedi cydnabod y rhwystrau neu'r tensiynau sy'n codi a'r camau y gallwch chi (neu eraill) eu cymryd i'w dileu? Pwy arall ddylai eistedd wrth fwrdd y BGC i'ch helpu i gydlynu'r penderfyniadau a wneir a gwella llesiant yn y maes hwn?

- **Ymgyfrannu:** Roedd fy adborth ynghylch eich asesiad llesiant yn cydnabod y gwaith caled a wnaethoch a'r ystod drawiadol o bobl y cysylltwyd â hwy a gwn eich bod wedi ceisio parhau i wneud hyn yn ystod y misoedd diwethaf. Rwyf am weld pob BGC yn rhoi ffocws amlwg a pharhaus ar hyn. Sut rydych chi'n cymryd camau i ddeall profiadau bywyd pobl yn eich ardal a sut mae hynny'n llywio eich camau gweithredu? Sut rydych chi'n mynd ati i chwilio am ffyrdd gwell o gynnwys pobl yn y penderfyniadau a wneir? Sut gallwch chi gydweithio ag aelodau o'r gymuned i gyflawni'r camau hyn? Yn yr un modd â Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru, pa opsiynau sydd ar gael o ran cynnwys pobl â phrofiadau bywyd ar Fyrddau a grwpiau partneriaeth?

Dylai pob BGC ddilyn y cyngor hwn, ond rwy'n sylweddoli bod yr holl BGCau wedi defnyddio dulliau gwahanol o ddrafftio eu hamcanion llesiant ac y byddant yn mynd ati i gyflawni eu cynllun llesiant mewn cyd-destun sy'n addas iddynt hwy. Mae eich tîm cymorth wedi gweithio'n galed i'ch helpu i gyflawni'r cynnydd trawiadol hwn wrth ddrafftio eich amcanion a'ch camau ac, fel y gwelais wrth ymateb i asesiadau llesiant o bob cwr o Gymru, gwn fod adnoddau i gyflawni ymchwil yn fater sydd wedi dod i'r amlwg. Mae'n ddiddorol clywed bod Canolbwynt Ymchwil ac Arloesi i'w sefydlu yn Sir Gaerfyrddin i'ch helpu i ystyried tystiolaeth a rhannu ymarfer. Clywaf eich bod yn trafod sut mae mesur cynnydd yn erbyn y cynllun a'ch bod am sicrhau eich bod yn mesur y pethau cywir. Tybed a allai hwn fod yn gam i chi fel BGC ac yn rôl i'r Canolbwynt? Mae BGC Caerdydd yn arbrofi â Chanolbwynt

Arloesi tebyg ar hyn o bryd, ac mae BGCau Gwent yn gweithio ar rai prosiectau ar y cyd a allai fod o ddiddordeb yn hyn o beth.

Fel yr awgrymais yn fy adroddiad ar yr asesiadau llesiant, mae'n bwysig ein bod ni'n cefnu ar y syniad o BGCau fel cyfarfodydd pwyllgor o dan arweiniad awdurdodau lleol, a bod y BGCau yn dod i barchu a deall meysydd proffesiynol ei gilydd. Dylai'r BGC gynnig ffordd newydd o weithio, nad yw'n cael ei gyrru gan ddiwylliant na dull gweithredu unrhyw sefydliad unigol. Gall Cadeirydd y BGC, sut ac ymhle y cynhelir cyfarfodydd, a'r cymorth a ddarperir i'r BGC i gyd newid meddylfryd a chaniatáu her fwy iachus i'r 'drefn arferol'.

Dylai arweinyddiaeth eich BGC dreiddio trwy eich sefydliadau ar bob lefel. Fel arweinwyr, rwy'n siŵr eich bod yn ymwneud â llawer o fentrau, cyfarfodydd a strwythurau partneriaeth. Mae defnyddio'r BGC i integreiddio eich gwaith a cheisio pennu amcanion a chymau sy'n gwneud synnwyr i bobl Sir Gaerfyrddin yn bwysicach na dim. Gan hynny, mae'n bwysig eich bod yn cyfleu penderfyniadau a negeseuon y BGC yn eich sefydliadau ac yn defnyddio'r cynllun llesiant presennol i herio arferion cyfredol yn eich adrannau eich hun. Clywais fod hyn yn arbennig o berthnasol i reolwyr canol sydd, o bosibl, yn cael trafferth cysoni fframweithiau cyfredol â'r Ddeddf. Rhan o'm rôl i yw adnabod a lliniaru rhwystrau, ond fel arweinwyr uwch mae gennych chithau rôl i herio eich rheolwyr i weithio'n wahanol a derbyn bod 'methu yn ddiogel'.

I berchenogi'r cynllun hwn o ddifrif a sicrhau bod y camau a gymerwch yn cael eu deall a'u cyflawni gan y cyrff sy'n aelodau o'r BGC, mae'n bosibl y byddwch am ystyried trefniadau cydweithio agosach, tîm amlasiantaeth rhithwir ag arweinydd uwch neu secondiadau a chydleoli mwy ffurfiol. Mae nifer o adnoddau a all fod yn ddefnyddiol i chi, fel [Designing Multi-Agency Partnerships](#); [Leading Culture Change](#). Bydd gofyn i chi, sy'n arweinwyr yn eich sefydliadau, chwarae eich rhan a gyrru'r newidiadau angenrheidiol ymlaen yn eofn. Gobeithiaf y byddwch yn parhau i arwain dull gweithredu ar sail gwybodaeth er mwyn cael hyd i atebion sy'n wahanol i'r ffordd y gwnaed pethau yn y gorffennol.

Cyngor ar sut gallech gymryd camau i gyflawni eich amcanion drafft:

Rydych chi wedi cyfeirio at ganfyddiadau eich asesiad a defnyddio gwybodaeth broffesiynol eich gwasanaethau i ddrafftio eich amcanion a'ch camau. Fel y dywedais yn yr adborth ar yr asesiad, credaf y byddai dehongli'r rhain yng nghyd-destun Sir Gaerfyrddin yn ddefnyddiol o ran esbonio pam bod yr amcan mor bwysig i chi h.y. dangos eich prosesau gwaith. Gwybodaeth ddealedig am hyn sydd yn eich cynllun ar hyn o bryd, felly byddwn yn eich cynghori i ddangos pa dystiolaeth leol a ddefnyddiwyd gennych (neu y byddwch yn ei defnyddio) i deall y meysydd penodol o ran ymyriadau ataliol llwyddiannus. Pa wasanaethau lleol yr effeithir arnynt os byddwch yn ailgyfeirio buddsoddiad? Er enghraifft, beth fydd 'gwella mynediad at yr amgylchedd naturiol' yn ei olygu'n benodol i Sir Gaerfyrddin? A oes tueddiadau tymor hir mewn cymunedau penodol y credwch y byddant yn gwaethygu os na fyddwch yn gweithredu? Pa gymunedau fyddai ar eu hennill ac ym mha ffordd? Beth allwch chi wneud yn wahanol i gyfrannu at [bob un](#) o'r saith nod? Awgrymaf eich bod yn cydweithio i wneud hyn yn fwy amlwg yn eich cynlluniau llesiant neu'n dweud pam nad yw'r atebion gennych eto a'r hyn y bwriedwch ei wneud

ynghylch hynny. Deallaf y byddwch yn parhau i weithio ar hyn trwy gydol y flwyddyn nesaf neu oddeutu hynny, a bwriad fy nghyngor yw cynnig syniadau, gwybodaeth a chysylltiadau a allai eich helpu.

- **Arferion iach: Bod gan bobl ansawdd bywyd da a'u bod yn gwneud dewisiadau iachus ynghylch eu bywydau a'u hamgylchedd.**

Ymhlith y camau drafft rydych wedi'u nodi mae ymgyrchu cydlynus, gwella mynediad at yr amgylchedd naturiol, datblygu rhagnodi cymdeithasol yn y brif ffrwd, diogelu'r amgylchedd, mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a chefnogi rhaglen i newid ymddygiad diwylliannol ar draws y sir. Mewn ardal o harddwch naturiol eithriadol sydd ag afonydd, llynnoedd, coetiroedd a thir ffermio, gallaf ddeall pam mae'r amcan drafft hwn yn ymwneud â iechyd personol a iechyd amgylcheddol. Mae'r amgylchedd naturiol yn ased i ni i gyd yng Nghymru ac fel y nodir yn eich asesiad, gan fod 60% o boblogaeth Sir Gaerfyrddin yn byw mewn ardaloedd gwledig a'r 40% sy'n weddill yn byw o fewn 400m i fan glas naturiol neu led-naturiol, y mae'n ased y mae angen ei werthfawrogi, ei ddefnyddio a'i amddiffyn yn eich sir. Mae llawer o bobl yn Sir Gaerfyrddin yn dibynnu ar eu hamgylchedd am eu hincwm, eu hanghenion sylfaenol a hamdden ac mae adnoddau, fel dŵr a choed, yn cael eu defnyddio gan bobl ledled Cymru. Sut rydych chi wedi ystyried effaith hirdymor digwyddiadau tywydd eithafol ar yr adnoddau hyn? Sut gallwch chi ddefnyddio senarios i ddychmygu pa gamau ataliol y gallech eu cymryd i amddiffyn amaethyddiaeth, cyflenwadau dŵr a thrafnidiaeth petai tywydd eithafol yn digwydd?

Fel y nodir yn eich asesiad, mae llifogydd yn effeithio ar iechyd pobl ymhell ar ôl y digwyddiad, a'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas sy'n dioddef yr effeithiau gwaethaf. Effeithiodd tywydd eithafol ar Sir Gaerfyrddin fwy nag unwaith y llynedd a ledled y wlad, [amcangyfrifir bod cost y difrod blynyddol disgwylidig i eiddo preswyl yn £22 filiwn](#). Mae deall y ffyrdd gwahanol y gallai tywydd eithafol effeithio ar wahanol gymunedau yn hanfodol bwysig o ran gwaith atal. Pa gynlluniau y gellid eu rhoi ar waith i amddiffyn busnesau yn Sir Gaerfyrddin? [Mae un enghraifft o fuddsoddi mewn amddiffynfydd rhag llifogydd i'w gweld ym mhen isaf Cwm Tawe](#), lle mae prosiect gwerth £6.7m yn amddiffyn 284 o fusnesau a safleoedd diwydiannol sy'n cyflogi mwy na 10,000 o bobl. Yn y dyfodol, mae tywydd eithafol yn debygol o achosi sychder yn yr haf, sy'n golygu prinder dŵr, colli bioamrywiaeth ac effaith ganlyniadol ar amaethyddiaeth, sy'n un o'r colofnau llesiant economaidd yn eich ardal. Sut gallwch chi gynllunio ar gyfer y senario gwaethaf, a pha gamau ataliol y gallwch eu cymryd yn awr? Beth fedrwch chi wneud yn awr, fel Prif Weithredwr, Cadeirydd neu Arweinydd, i liniaru effeithiau colli amgylcheddau a bod yn fwy cyfrifol ar lefel fyd-eang?

Bydd angen sicrhau bod eich rolau eich hun o ran amddiffyn yr amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn eglur yn y camau a gymerwch i gyflawni'r amcan hwn. Mae adroddiad [Zero Carbon Britain, 'Making it Happen'](#) yn nodi'r cyfrifoldebau sydd gennym ni i gyd i weithredu yn awr ynghylch y newid yn yr hinsawdd, er budd cenedlaethau'r dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys eich ffordd o gynllunio, dylunio a lleoli datblygiadau yn y dyfodol (fel rhan o'ch Cynllun Datblygu Lleol) ynghyd ag adeiladau, isadeiledd a manau cyhoeddus a chymunedol eraill. Gyda'ch gilydd, mae gennych hefyd ystadau sector cyhoeddus mawr a chyfle i leisio barn ar faterion dylunio ac adnewyddu adeiladau cyhoeddus. Bydd ystyried pa mor 'wyrdd' yw'r adeiladau hyn, o ran effeithlonrwydd ynni

ac o ran adeiladwaith cynaliadwy, yn ateb cyflym i chi fel BGC. Mae [adroddiad Ymddiriedolaeth Natur Cymru ynghylch seilwaith glas](#) yn disgrifio sut mae seilwaith glas yn darparu ystod eang o fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cydnabyddedig, amlwg a chost effeithiol. Mae gan [Gomisiwn Dylunio Cymru](#) hefyd astudiaethau achos ac adnoddau ynghylch dylunio sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr, yn mwyaf effeithlonrwydd ynni, ac y gwelwyd eu bod yn gwella adferiad iechyd cleifion yn sylweddol.

Yn ddiweddar, [cyhoeddodd Llywodraeth Cymru](#) lefelau allyriadau carbon wedi'u hisrannu fesul Awdurdod Lleol. Er bod y sector cyhoeddus yn gyfrifol am gyfran gymharol fach o allyriadau Cymru, rydych mewn sefyllfa unigryw i ddylanwadu'n llawer mwy helaeth ar allyriadau mewn meysydd fel trafniadaeth, ynni, defnydd tir a chaffael. Hefyd, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru [Cais am Dystiolaeth](#) er mwyn archwilio'r dulliau mwyaf effeithiol o gyflawni sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030 ac ysgrifennais atoch i'ch annog i ystyried y cais hwnnw a chyfrannu ato cyn y dyddiad cau ar 13eg Medi. Byddaf yn cynnal digwyddiad ym mis Tachwedd, ar y cyd â Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru er mwyn: ystyried sut gall y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ymgysylltu â phobl wrth gydweithio ac integreiddio eu gwaith, rhoi mwy o ystyriaeth i oblygiadau carbon eu gweithgareddau yn y tymor hir, a helpu i atal effeithiau'r newid yn yr hinsawdd rhag gwaethygu ymhellach.

Mae cynnwys pobl yn y gwaith hwn nid yn unig yn cael effaith gadarnhaol o ran amddiffyn yr amgylchedd, ond hefyd yn eu hannog i gael ymarfer corff a chysylltu â byd natur. [Mae gan NESTA ganllawiau](#) ynghylch gweithio gyda chymunedau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys 'Yr Her Werdd Fawr', lle bu cyfranogwyr yn newid eu ffyrdd o fyw er mwyn lleihau eu hól troed carbon. Mae prosiectau fel ['Glawlif' Dŵr Cymru](#) yn awgrymu sut gallwn ni i gyd liniaru effeithiau llifogydd, ac un enghraifft eithafol yw [Ynys Eigg yn yr Alban](#) lle mae'r gymuned yn cael effaith gadarnhaol ar ei hamgylchedd trwy gyflwyno cynlluniau ynni adnewyddadwy, adeiladu busnesau cynaliadwy a gwella bioamrywiaeth. Bydd angen dehongli ac archwilio'r gwahaniaethau ar draws Sir Gaerfyrddin a bydd hyn yn cynnwys grymuso pobl, a staff yn treulio mwy o amser ar lawr gwlad. Mae'n galonogol clywed eich bod yn ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned, gan adeiladu ar waith Cyngor Tref Llanelli a'r 'Llanelli a garem', a'u bod yn darparu gwybodaeth ar gyfer llunio'r amcanion a'r camau drafft. Gall gweithio gyda chynghorau cymuned, y trydydd sector a rhwydweithiau eraill eich helpu i ddeall y ffordd orau o ymgysylltu â phobl ac annog newid ymddygiad.

Mae bron un o bob tri phlentyn yn Sir Gaerfyrddin dros bwysau neu'n ordew, ac mae'r tueddiadau iechyd yn debygol o waethygu yn y tymor hir ledled Cymru. Dywedodd y rhan fwyaf o bobl wrthyf eu bod yn gweld cysylltiad rhwng eu llesiant a iechyd corfforol a mynediad at yr amgylchedd, felly byddwn innau yn eich cynghori i wrando ac i gyd-ddylunio mentrau er mwyn annog pobl i fwynhau'r awyr agored. Mae un o'ch camau drafft yn ymwneud â rhagnodi cymdeithasol, sy'n cydnabod bod iechyd yn gysylltiedig â'n llesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol ni i gyd. Mae rhagnodi cymdeithasol yn cwmpasu ystod enfawr o bethau, ond mae'n faes sy'n tyfu ac rwy'n falch o'ch gweld yn ei gydnabod fel dull ataliol. Mae'r [astudiaeth hon ynghylch rhagnodi cymdeithasol ym Mryste](#) yn darparu gwybodaeth am wahanol fodolau ac yn cynnig cipolwg ar y gwelliannau i iechyd meddwl a iechyd corfforol cyffredinol. Yn ddiweddar, dangosodd rhaglen ddogfen y BBC,

'The doctor who gave up drugs', nifer o enghreifftiau o'r ffordd y mae dulliau heblaw rhagnodi tabledi yn gallu cael effaith gadarnhaol hirhoedlog a mwy cyfannol ar fywydau unigolion - gyda phobl yn gwella'u ffitrwydd corfforol a'u hiechyd meddwl heb ddibynnu ar bresgripsiynau. Rwy'n siŵr y gwelwch fod cyfleoedd i chi weithio gyda sefydliadau fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Ymddiriedolaethau Natur i ddatblygu dull gweithredu ar draws y sir.

Mae un o'ch camau drafft yn ymwneud ag annog newid ymddygiad yn eich poblogaeth a bydd hynny'n aml yn 'glynu' yn fwy pan fydd pobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol gyda'i gilydd; er enghraifft, gwelodd adroddiad [Nudjed - 'Behaviour Change is a Team Sport'](#) fod modd cynyddu patrymau ymarfer trwy ddod â phobl at ei gilydd. Sut gall y gweithgareddau diwylliannol cyfoethog annog plant ac oedolion i fyw bywydau iachach? Sut gallai pobl gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol i'w helpu i reoli eu hiechyd? Mae hwn yn gyfle i wella mynediad at weithgareddau diwylliannol a hyrwyddo treftadaeth, defnyddio'r Gymraeg ac annog pobl i ddod ynghyd i gefnogi achos lleol, fel eu hamgylchedd. Mae prosiect ['Coed Actif' Cyfoeth Naturiol Cymru](#) yn enghraifft o gael pobl i fynd allan, amddiffyn eu hamgylchedd a mwynhau'r effeithiau cadarnhaol ar iechyd a lles.

Ymhlith y BGCau eraill sy'n edrych ar ragnodi cymdeithasol/gwyrdd a gwella iechyd mae Conwy / Sir Ddinbych, Sir Fynwy a Phowys.

- ***Ymyrraeth gynnar: Bod pobl y cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir, pan fo'i angen arnynt.***

Mae'n galonogol gweld eich bod yn cydnabod yr heriau a all wynebu pobl ar adegau penodol ('pwyntiau sbardun') yn eu bywydau a'ch bod yn ceisio atal y problemau hyn rhag digwydd. Yn aml, ni fydd ein gwasanaethau wedi'u trefnu mewn modd sy'n sicrhau bod modd sylwi'n ddigonol bod sefyllfa'n dirywio a chamu i mewn yn effeithiol ar yr adeg gywir. Bwriedir bod y pum dull o weithio yn herio ein dulliau presennol o weithio ac yn cynnig persbectif gwahanol i'r gwasanaeth cyhoeddus cyfan o ran delio â phroblemau. Mae ymgysylltu â phobl yn ganolog i herio'r system oherwydd dim ond trwy ddeall profiadau bywyd pobl y gallwn gynllunio gwasanaethau sy'n addas i genedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r astudiaethau achos [yn yr adroddiad hwn gan Locality](#) yn dangos cost ariannol a chymdeithasol peidio â defnyddio'r ymagwedd gyfannol ac ataliol hon at fywydau pobl, a delio â phobl mewn 'blychau defnyddwyr gwasanaeth' taclus.

Fel gwasanaethau cyhoeddus, rydym yn aml yn canolbwyntio ar drin symptomau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod (ACEs), fel salwch meddwl, camddefnyddio sylweddau a cham-drin yn y cartref, yn hytrach na mynd i'r afael â'r achosion gwaelodol. Credaf fod y dull cylch bywyd a ddefnyddiwyd yn eich asesiad llesiant yn ffordd gadarnhaol o ddangos y gwasanaethau cyhoeddus sydd eu hangen ar bobl drwy gydol eu hoes. Ond beth allwn ni wneud i gael effaith yn y tymor hir a dod yn fwy ataliol? Disgwyliaf eich gweld yn ymchwilio i'r wybodaeth hon ac yn ei defnyddio i lywio eich camau yn ystod y flwyddyn sy'n dod. Bydd darparu'r cymorth cywir ar yr adeg gywir yn golygu integreiddio gwasanaethau yn well, gan gydleoli timau, cydrannu adnoddau a gweithio mewn modd sy'n gwneud synnwyr i'r gymuned. Yn y camau a gymerwch, mae'n bwysig adolygu'r mentrau lleol sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, cyfiawnder troseddol, gwasanaethau tai ac eraill i sicrhau eu bod

yn ataliol, yn gydgysylltiedig ac yn gweithio'n ddiwyd i geisio gwella sefyllfaoedd teuluoedd a rhieni'r dyfodol fel na fydd y cylch yn parhau i'r genhedlaeth nesaf.

Mae deall yr hyn rydych chi'n ceisio'i atal yn ganolog i'r camau a gymerwch i gyflawni'r amcan drafft hwn. Fel y nodir yn eich asesiad, mae dyddiau cynnar bywyd plant ac amgylchiadau eu teuluoedd yn hanfodol bwysig i'w lles trwy gydol bywyd. [Amcangyfrifir bod gwasanaethau ymyrraeth hwyr i bobl ifanc yn costio £17 biliwn y flwyddyn i Gymru a Lloegr](#). Nid eich cyfrifoldeb chi yn unig yw galluogi pobl i gael cychwyn iach mewn bywyd, mae'n gyfrifoldeb hefyd i'r teuluoedd sy'n magu'r plant a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt, yn ogystal â'r teuluoedd newydd y bydd y plant eu hunain yn eu ffurfio. Mae gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch [Y 1,000 Diwrnod Cyntaf](#) yn nodi'n eglur yr effaith y gallwn ei chael ar fywydau plant. Wrth i chi ystyried pa gamau y gallech eu cymryd, gallai [gwaith y New Economics Foundation](#) ynghylch buddsoddi mewn plant fod yn ddefnyddiol. Mae'n amlygu bod angen rhoi sylw i les materol ac amgylchiadau allanol - fel tai, tlodi ac addysgu - yn ogystal â llesiant seicogymdeithasol ac adnoddau mewnol.

Mae gan fwy na chwarter yr oedolion ac un o bob deg plentyn yn Sir Gaerfyrddin broblem iechyd meddwl. Mae tua hanner y bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl parhaus yn arddangos symptomau erbyn eu bod yn 14 oed, ac mae nifer fawr yn arddangos symptomau yn llawer iau. Sut gallwch chi gydweithio i adnabod symptomau salwch yn gynharach mewn bywyd? Beth ellir ei wneud i atal problemau yn ddiweddarach mewn bywyd? Ym mha ffyrdd y gallai fod angen newid gwasanaethau neu addasu gwasanaethau cyffredinol er mwyn sicrhau bod ataliaeth yn elfen greiddiol? Mae [Caerdydd wedi arbrofi â gwersi iechyd meddwl i blant](#) ac mae adroddiad newydd gan Respublica a Barnardo's, ['Making young minds matter'](#) yn amlygu bod ymyrraeth gynnar (fel cwnsela mewn ysgolion yng Nghymru) yn medru cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl.

Sut gallwch chi gynnwys yr 'wynebau newydd' wrth gymryd camau i gyflawni'r amcan hwn? Mae llawer o deuluoedd yn amharod i gysylltu â gwasanaethau statudol ar adegau o angen, felly sut gallwch chi alluogi pobl i'w helpu eu hunain? Sut bydd y trydydd sector yn cael ei rymuso i helpu? Mae hyn yn cysylltu â'ch amcan isod ynghylch cysylltiadau cryfach a chydnerthedd. Mae BGCau eraill, fel Cwm Taf, Blaenau Gwent a Phen-y-bont ar Ogwr, wedi canolbwyntio ar amcanion tebyg. Byddaf innau'n rhan o [weminar Cyfnewidfa Arfer Da Cymru ynghylch deall Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar 7fed Tachwedd](#), a gallai hynny fod yn ddefnyddiol wrth i chi ystyried eich camau ar gyfer yr amcan hwn.

- [Cysylltiadau Cadarn: Pobl, lleoedd a sefydliadau sydd wedi eu cysylltu'n gadarn, sy'n gallu addasu i newid.](#)

Mae cydlyniant cymunedol, diwylliant bywiog a thraddodiadau ffyniannus yn rhai o asedau Sir Gaerfyrddin. Mae'r camau a nodwyd gennych yn datblygu eich themâu cychwynnol i hyrwyddo gwirfoddoli, cydleoli gwasanaethau, gwella sgiliau cymunedau a chreu mentrau ar y cyd. Mae'r amcan hwn yn cysylltu â'r tri amcan arall sydd gennych a charwn ailadrodd bod deall y gwahaniaethau rhwng cymunedau a lle yn ganolog i'r camau a gymerwch i gyflawni'r uchelgais hon. Bydd gofyn deall o ddifrif yr asedau, y cyfleoedd a'r rhwystrau ym mhrofiadau bywyd

pobl a gosod cyd-destun yr hyn y mae byw mewn cymuned benodol yn ei olygu. Ni fydd y rhan fwyaf o bobl ond yn ymwneud â phethau sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt hwy, eu teuluoedd neu'r manau lle byddant yn treulio amser ac, yn aml, gall hyn arwain at ddeilliannau mwy o lawer. Yn aml, bydd rhoi'r grym yn nwylo'r bobl sy'n adnabod eu hardal orau yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol annisgwyl, fel y gwelir yng ngwaith ['Nurture Development'](#) ynghylch Datblygu Cymunedol ar sail Asedau ac [mae astudiaeth 'Lle Dwf'n' Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru yn Nhrefdegar](#) yn dangos sut gall deall lle gynnig buddion lluosog o ran llesiant.

Bydd y ddealltwriaeth ddyfnach hon nid yn unig yn helpu i gysoni gwasanaethau ond hefyd yn eich annog i ystyried sut byddwch chi'n cyfrannu at Sir Gaerfyrddin sy'n fwy cyfartal. Mae'n bosibl na fyddwch yn gwybod pwy yw'r darpar arweinwyr a chysylltwyr cymunedol mewn rhai ardaloedd felly, os ydych wedi ymrwmo i hyn, ad-drefnwch eich adnoddau i wneud rhagor o waith mewn cymunedau, er mwyn dechrau dod i adnabod lleoedd fel y mae'r bobl sy'n byw ynddynt yn eu hadnabod. Byddai gwneud hyn yn sicr yn eich helpu i ddeall sut gallech fynd ati i daclo anghydraddoldeb yn seiliedig ar le, ac yn fodd i chi ddeall yr amgylchedd yn y lleoliad hwnnw hefyd. Eto, bydd cynnwys 'wynebau newydd' yng ngwaith y BGC, ysgolion, colegau, y Cynghorau Tref a Chymuned a'r trydydd sector yn bwysig o ran cysylltu pobl â'i gilydd. Mewn rhai ardaloedd, cyllidwyd sefydliadau cymunedol i weithio fel cydlynwyr cymunedol ar gyfer pobl hŷn - gan eu cysylltu â gweithgareddau a gwasanaethau lleol yn eu hardal a'u helpu i gadw'n iach ac egnïol. [Lluniwyd gwybodaeth ehangach gan CGGC](#) ynghylch sut mae'r trydydd sector yn cyfrannu at y Ddeddf, gan gynnwys adnoddau ynghylch y saith nod llesiant.

Yn achos pob un o'ch amcanion, hoffwn ddeall y rhesymeg y tu ôl i'ch camau. Rydych wedi dechrau egluro hyn mewn perthynas â chanfyddiadau eich asesiad, ond mae'n bwysig eich bod yn dangos sut mae'r pum dull o weithio wedi llywio eich syniadau wrth ystyried eich cyfraniad at y saith nod. Er enghraifft, a yw datblygu cyfleoedd gwirfoddoli yn fesur ataliol yn erbyn ynysu cymdeithasol ac yn ffordd o greu cydlyniant cymunedol a chydnerthedd? Mae'n amlwg eich bod wedi ystyried sut mae cynnwys pobl yn eich asesiad a'ch cynllun llesiant a gwn eich bod yn meddwl yn awr am y ffyrdd gorau o ymgysylltu'n well â phobl Sir Gaerfyrddin. Byddwn yn cynghori pob un o'ch sefydliadau i ymrwmo i'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol a gall [Cyfranogaeth Cymru](#) gynorthwyo eich swyddogion i ddatblygu'r sgiliau hanfodol ar gyfer cyfranogiad effeithiol ac ystyrlon. Gallai [Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru](#) eich helpu i nodi arweinwyr cymunedol ac ymgysylltu â nhw. Cysylltwch â'r Cyfarwyddwr, Mark John-Williams i gael rhagor o gyngor.

Mae 'Newyddion Sir Gâr' yn ffordd dda o roi gwybodaeth i gymunedau ond sut rydych chi wedi ystyried sut y gallai pobl fod am ymwneud â hyn yn y dyfodol, a sut gellid defnyddio hyn i hyrwyddo ymgysylltu ystyrlon a gefnogir gan amrywiaeth o sianeli cyfathrebu? Pa fath o newidiadau y gallai fod angen eu gwneud i systemau a pholisïau eich sefydliad er mwyn galluogi pobl i chwarae mwy o ran mewn cymunedau a llunio gwasanaethau lleol? Mae ymchwil gyfredol yn dangos bod plant rhwng pump ac 16 oed yn treulio chwe awr a hanner y dydd ar gyfartaledd o flaen sgrîn. [Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn brif ffynhonnell newyddion i 28% o bobl ifanc; gyrrir 43% o 'fileniaid' i gyfrannu arian trwy sianeli cymdeithasol;](#) ac yn [ôl arolwg ONS 2017](#), roedd 87% o holl oedolion Cymru wedi defnyddio'r rhyngwyd yn ddiweddar (h.y. wedi defnyddio'r rhyngwyd yn ystod y tri mis diwethaf). Er nad yw rhai pobl ar-lein ar hyn o bryd, ac mae angen clir am deilwra dulliau gweithredu, mae cyfle

gwirioneddol i ymgysylltu â phobl yn y ffordd fwyaf cyfleus iddynt, sy'n rhan o'u bywyd pob dydd a heb fod yn dasg ychwanegol. Mae ["Monmouthshire Made Open"](#) yn enghraifft o lwyfan ar-lein sydd wedi rhagweld sut gallai pobl gyfrannu at wella eu hardal yn y dyfodol, gyda chyfleoedd i rannu syniadau, holi'r gymuned, cychwyn prosiect a chwilio am wirfoddolwyr neu adnoddau. Gallai Matthew Gatehouse, sy'n gweithio gyda BGC Sir Fynwy, rannu'r hyn a ddysgwyd wrth sefydlu'r wefan gyda chi.

Mae unigrwydd ac ynysu cymdeithasol yn effeithio ar bobl o bob oed, yn enwedig mewn cymunedau gwledig. Ond fel y mae eich asesiad yn dangos, mae pobl hŷn yn rhoi gwerth arbennig ar deimlo cysylltiad â'u cymuned. Dengys [ymchwil gan Heneiddio'n Dda yng Nghymru](#) fod cysylltiad agos rhwng unigrwydd mewn pobl hŷn a iechyd meddwl a iechyd corfforol gwael. Sut mae sicrhau'r budd mwyaf o gynyddu cyfranogiad er mwyn gwella iechyd pobl hŷn yn eich ardal? Mae enghreifftiau da o brosiectau, ledled Cymru, sy'n ceisio dod â phobl ynghyd i ddysgu sgiliau newydd, cymdeithasu a dod yn fwy cydnerth yn hwyrach mewn bywyd, prosiectau fel [Siediau Dynion Cymru](#), y gallai'r BGC eu hannog a'u cefnogi. Mae [Gofal Solfach](#) hefyd yn enghraifft o'r math o gynlluniau arloesol sy'n canolbwyntio ar anghenion y gymuned yn gyntaf ac yn integreiddio gwasanaethau er mwyn gwella llesiant.

Mae cyfle gwirioneddol yma i chi feddwl am sut byddwch chi'n mwyafu eich cyfraniad at y nodau cenedlaethol, fel y cydnabwyd gennych yn eich cam drafft i hyrwyddo cymunedau cydlynol a dwyieithog. Mae treftadaeth, iaith, traddodiadau ac amgylchedd naturiol Sir Gaerfyrddin i gyd yn bethau y mae pobl yn teimlo'n angerddol amdanynt. Mae [strategaeth Cyngor Celfyddydau Cymru](#) yn amlinellu rhai o'r manteision y bydd cymryd rhan mewn gweithgaredd creadigol yn eu cynnig o ran iechyd, cydlyniant a sgiliau'r boblogaeth. Mae'r [Rhaglen Comisiynu Creadigol, a ariannir gan Gyngor Celfyddydau Lloegr](#) yn ceisio helpu comisiynwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddeall sut gallant wella deilliannau trwy integreiddio gweithgareddau celfyddydol a chreadigol ag amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys iechyd meddwl a lles, gwasanaethau pobl hŷn a chomisiynu yn seiliedig ar leoedd. Gall cydweithio â'r cyrff cyhoeddus cenedlaethol sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf, fel Chwaraeon Cymru, Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru eich helpu i weld sut gallai eich camau i gyflawni'r amcan hwn fwyafu eich cyfraniad i bob un o'r nodau. Mae tîm Comisiynydd y Gymraeg hefyd yn ystyried y ffordd orau o helpu BGCau i ystyried y rôl y gallant ei chwarae o ran twf y Gymraeg, fel y pennwyd yn adroddiad '[Cymraeg 2050](#)'. Cofiwch roi gwybod i'm tîm os hoffech gysylltu â'r unigolion perthnasol yn y sefydliadau hyn.

Ni fyddwch yn synnu o glywed bod Byrddau Gwasanaethau Lleol eraill hefyd yn ystyried pennu amcanion ynghylch ymgysylltu, datblygu neu gynnal rhwydweithiau cymdeithasol cadarn, meithrin ymdeimlad o berthyn a llunio gwasanaethau. Yn arbennig, mae'n bosibl y byddwch am rannu syniadau gyda BGCau Bro Morgannwg; Ceredigion; Casnewydd a Phowys, sydd wedi anfon amcanion drafft tebyg ataf.

- **[Pobl a lleoedd llewyrchus: Mwyafu'r cyfleoedd i bobl a lleoedd yn ardaloedd trefol a gwledig y sir.](#)**

Fel arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin, gyda chysylltiadau rhanbarthol cryf â Sir Benfro a Cheredigion, ymwneud â Bagen Ddinesig Bae Abertawe a thri chanol tref, dylai'r BGC gydnabod y dylanwad sydd ganddo ar y cyfleoedd a gynigir i bobl ac o ran dylanwadu ar gyrff eraill i weithredu. Nodwyd yn eich asesiad

llesiant fod pobl ifanc am weld rhagor o brentisiaethau a chyfleoedd hyfforddiant, a bod eu hanner yn awgrymu nad oedd cyfleoedd addas ar gael iddynt yn yr ardal. Gwelsoch fod llawer o bobl ifanc yn gadael i chwilio am gyfleoedd mewn mannau eraill - [tuedd a welir ar draws Cymru](#). Mae incwm yn isel yn gyffredinol a'r prif broffesiynau yw amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota, trwsio ceir ac adeiladu.

Mae llawer o bobl yn Sir Gaerfyrddin yn defnyddio'u ceir i deithio'n eithaf pell i'r gwaith, sy'n cael effaith ar ansawdd aer, eu hiechyd corfforol a'u hamser. Mae'n galonogol gweld y camau drafft ynghylch gwella'r seilwaith digidol, a all gynnig cyfleoedd gwirioneddol i gymunedau gwledig, gan na fydd gofyn teithio i'r gwaith mewn car yn y dyfodol fwy na thebyg. Mae BGCau cymdogol hefyd yn ystyried sut gallant ddylanwadu ar y seilwaith digidol yn eich ardaloedd a byddwn yn eich cynghori i ddod ynghyd i lunio achos dros fynediad gwell.

Mewn cymunedau gwledig yn Japan a Chanada, gwelwyd cynnydd yn ddiweddar yn nifer y bobl iau sy'n aros yn eu bro enedigol, yn sgîl gwell technoleg ond hefyd drwy ddathlu eu ffordd o fyw a chyflwyno twristiaeth gynaliadwy. Mae'r [erthygl hon gan Fforwm Economaidd y Byd](#) yn awgrymu mai rhan o'r ateb o bosibl yw mentrau cymunedol o'r gwaelod i fyny, lle mae pobl ifanc yn dod i deimlo balchder a pherchenogaeth wrth ddweud wrth eraill am eu treftadaeth a'r amgylchedd, gan ddechrau busnesau bach sy'n elwa o ymweliadau gan dwristiaid.

Mae dyfodol cyflogaeth a'n ffordd o feddwl am 'waith' yn newid. Doedd dim sôn am rai o'r swyddi sy'n bodoli heddiw pan adewais i'r ysgol a bydd yr un peth yn wir am ein plant; mae'r [adroddiad ar Ddyfodol Gwaith](#) yn rhagfynegi y bydd 65 y cant o'r plant sy'n dechrau'r ysgol nawr yn gweithio fel oedolion mewn swyddi nad ydynt yn bodoli eto. Nododd y plant 6-11 oed a fu'n siarad â chi ar gyfer yr asesiad llesiant yrfaeodd yn y diwydiant chwarae gêm, YouTube a chwmnïau rhyngryd. [Ac yn ôl McKinsey](#), gallai technoleg awtomeiddio 45 y cant o'r tasgau y cyflogir pobl i'w gwneud ar hyn o bryd. Pa gamau gallwch chi eu cymryd yn awr, fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, i annog dysgu a swyddi yn yr economi sylfaenol mewn diwydiannau gofal, manwerthu a bwyd, sef swyddi sy'n llai tebygol o gael eu hawtomeiddio yn y dyfodol ac sy'n llesol i'r economi leol? Mae [adroddiad diweddar gan Sefydliad Joseph Rowntree](#) yn tynnu sylw at werth yr economi gymdeithasol wrth greu swyddi, cryfhau sgiliau a chyflogadwyedd. Ym mha ffordd rydych chi wedi ystyried y tueddiadau tymor hir hyn wrth bennu eich camau a galluogi pobl i addasu eu sgiliau er mwyn ennill cyflog yn y dyfodol?

Bu [adroddiad diweddar Results for Life The Prince's Trust](#) yn archwilio sut mae gwaith tîm, cyfathrebu a hyder yn un mor werthfawr â graddau da i bobl ifanc sy'n ymuno â'r gweithlu. Dylai'r patrymau gwaith newidiol yn y tymor hir ein gorfodi ni hefyd i ystyried sut gallai sgiliau bywyd fod yn bwysicach na chymwysterau yn y dyfodol. Yn ddiweddar, trafodwyd y cwestiwn 'beth yw ystyr gwaith?' ar un o [Flogiau Fforwm Economaidd y Byd](#). Yn wir, mae [adroddiad Future of Work](#) yn awgrymu y bydd creadigrwydd, cysylltedd, cyfathrebu a datrys problemau yn llawer pwysicach na gwybodaeth benodol, gyda mwy o waith seiliedig ar brosiectau yn digwydd yn y dyfodol - yn hytrach na chyflogaeth sefydlog.

Mae'n braf clywed bod Coleg Sir Gâr a'r Drindod Dewi Sant yn ymwneud i'r fath raddau â'r BGC. Sut gallwch chi gydweithio i hyrwyddo sgiliau bywyd addas at y dyfodol yn Sir Gaerfyrddin? Sut byddwch chi'n cydweithio â

busnesau i greu cyfleoedd? Pa gyfrifoldebau cymdeithasol y mae'r sector preifat wedi'u mabwysiadu yn Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman? Sut mae busnesau yn dod ynghyd i yrru newid cadarnhaol yn y tymor hir ac a oes gan y BGC unrhyw ddylanwad ar hyn? Pa gyfleoedd y gellir eu cynnig i egin fentrau cymunedol trwy waith y BGC ar y cyd â'r sector preifat a darparwyr addysg?

Mae'n galonogol gweld eich bod wedi ystyried eich cyfrifoldebau eich hun o ran cyflawni'r amcan hwn fel cyflogwyr a phrynwyr mawr yn y sector cyhoeddus. Dylech barhau i wneud hyn yng nghyd-destun y saith nod llesiant. Er enghraifft, sut gall eich gweithdrefnau caffael gyfrannu i'r eithaf at Sir Gaerfyrddin sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, a sut gallwch chi weithio ar draws y BGC i wireddu'r nod hwn? A all polisïau eich sefydliad geisio helpu busnesau lleol cynaliadwy, gan leihau teithiau nwyddau, yn hytrach na chanolbwyntio ar gost yn unig? [Cyhoeddodd y Fforwm ar gyfer y Dyfodol](#) adroddiadau ar y mater hwn ac mae fy swyddfa yn gweithio gyda [Gwerth Cymru](#) i arbrofi â dulliau caffael newydd yng nghyd-destun y Ddeddf. Sut gallwch chi hyrwyddo cydraddoldeb? Sut gall eich sefydliadau geisio helpu'r Gymraeg i dyfu yn yr ardal? Yn ddiweddar, cyhoeddodd Alun Davies AC [gyllid i dyfu busnesau bach dwyieithog](#) er mwyn gwneud y Gymraeg yn fwy gweladwy yn ein cymunedau. Wrth i chi geisio galluogi entrepreneuriaeth a thwff, beth am gyflwyno cynlluniau sy'n mynnu bod pobl yn sefydlu mentrau cynaliadwy sy'n cyfrannu i'r eithaf at y saith nod?

Ymhlith y BGCau eraill sy'n drafftio amcanion a chamau tebyg mae Powys; Caerdydd; Sir Fynwy; a Chaerffili.

Rwy'n gobeithio bod y cyngor hwn wedi bod yn ddefnyddiol i chi o ran camu ymlaen at gyhoeddi cynllun llesiant ac ymgynghori'n ffurfiol arno. Mae croeso i chi gysylltu â'm tîm os hoffech gael manylion cyswllt pellach unrhyw rai o'r sefydliadau a'r adroddiadau a nodwyd yn y llythyr hwn.

Rwyf hefyd yn dysgu am y ffyrdd gorau o gynghori, cefnogi a monitro sut mae cyrff cyhoeddus yn ceisio cymhwyso'r pum dull o weithio a mwyafu eu cyfraniad at y saith nod llesiant cenedlaethol, felly byddwn yn croesawu unrhyw adborth gennych chi, swyddogion cymorth a Phwyllgor Craffu BGC Sir Gaerfyrddin ynghylch sut y dewisais ymdrin â'r ddyletswydd statudol hon a'r cyngor a roddais.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cynllun llesiant drafft a chofiwch gadw mewn cysylltiad â mi a'm tîm.

Cofion gorau,



Sophie Howe